CPS

CROWN
PROSECUTION
SERVICE



CPS Gwent

Adroddiad Blynyddol | 2001-2002

Cyflwyniad gan Brif Erlynydd y Goron

Mae'n bleser gennyf gyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Ardal Gwent. Mae'r Ardal yn cwmpasu pum Bwrdeistref Sirol sef Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy. Lleolir CPS Gwent mewn un swyddfa yng Nghasnewydd.

Rwy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Syr David Calvert-Smith CF, am erlyn pob achos yn yr Ardal yn effeithiol. Fy rôl i yw sicrhau y caiff achosion eu herlyn yn gadarn yn deg ac yn effeithiol, gan ddilyn Cod Erlynwyr y Goron sef y canllaw awdurdodol ar y penderfyniad i erlyn. Rwy'n canolbwyntio ar y prosesau erlyn a chyfreithiol, tra bod Rheolwr Busnes yr Ardal yn fy nghynorthwyo i reoli prosesau a gweinyddiaeth y swyddfa.

Prif nod y system cyfiawnder troseddol yw lleihau troseddau ac ofn oherwydd troseddau a gweinyddu cyfiawnder yn deg ac yn effeithlon. Er mwyn cyfrannu at hyn, gosodwyd targedau heriol ar gyfer yr Ardal ar ddechrau'r flwyddyn i sicrhau ein bod yn parhau i wella ein perfformiad. Rhagorwyd ar y targedau hyn yn sylweddol oherwydd ymrwymiad ein staff. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol leol i ddatblygu mentrau i gyflymu'r broses cyfiawnder.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr Ardal yn y flwyddyn ddiwethaf tuag at ei nod o ddarparu gwasanaeth erlyn rhagorol i gymuned Gwent. Dyma rai enghreifftiau:

Staff newydd

Dros y flwyddyn ymunodd dim llai na chwe chyfreithiwr newydd â'n staff o Erlynwyr y Goron. Rydym bellach yn cyflogi 30 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr fel erlynwyr, gan ein gwneud mewn gwirionedd yn un o'r cwmnïau cyfreithiol mwyaf yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn fedrus iawn ac yn uchel eu parch. Mae rhai ohonynt yn arbenigwyr cenedlaethol yn eu maes penodol. Rydym hefyd wedi recriwtio gweinyddwyr medrus i roi cymorth i'r cyfreithwyr hyn.

Yr heddlu'n cydweithio ochr yn ochr â ni

Yn fy adroddiad diwethaf crybwyllais fod staff yr heddlu newydd symud i adeilad y CPS i weithio ochr yn ochr ag erlynwyr wrth ddelio â gwaith achos difrifol iawn. Bu'r trefniant hwn yn llwyddiant

ysgubol ac mae gan yr heddlu bellach gyfanswm o wyth o staff llawn amser sy'n gweithio â ni gan ddelio ag achosion fel llofruddiaeth, dynladdiad a thrais. Dros y flwyddyn rydym wedi delio â dros 500 o achosion o'r natur difrifol hwn. Ym mis Medi eleni rydym yn bwriadu ymestyn y fenter hon drwy roi erlynwyr i weithio ochr yn ochr â'r heddlu gan ddelio â throseddau a gaiff eu herlyn fel arfer mewn Llys Ynadon. Bydd erlynwyr a staff gweinyddol yn symud i weithio yng ngorsaf heddlu Casnewydd.

Technoleg gwybodaeth

Derbyniodd yr ardal hwb sylweddol yn ystod y flwyddyn ar ôl cyflwyno cyfrifiadur personol i bob aelod o'r staff. Mae hyn wedi gwneud ein swyddfa yn un fwy effeithlon gan ddosbarthu gwybodaeth yn gyflym. Mae hyn wedi ein helpu i ddod i benderfyniadau yn gynt.

Trais yn y cartref

Lansiodd y Gwir Anrh Harriet Harman CF AS, Cyfreithiwr Cyffredinol, bolisi'r CPS ar Drais yn y Cartref ym mis Tachwedd 2001. Er mwyn adlewyrchu hyn, rydym wedi lansio'r polisi yn lleol ac wedi derbyn llawer o gyhoeddusrwydd cadarnhaol gan y wasg. Rydym wedi mabwysiadu proffil uchel yn y fora Trais yn y Cartref a sefydlwyd ledled Gwent, ac mae'n deg dweud bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi creu argraff dda ar gynrychiolwyr o sefydliadau Cymorth i Fenywod o ran pa mor ddifrifol yr ystyria drais yn y cartref.

Mae gennym chwech o erlynwyr sy'n arbenigo mewn trais yn y cartref, ac mae nifer ohonynt â phrofiad

Gwaith achos

mewn cyfraith teulu. Eu nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel iawn i ddioddefwyr trais yn y cartref yn ystod y broses erlyn.

Troseddwyr ifanc

Yn haeddiannol, mae'r Llywodraeth wedi rhoi pwyslais uchel iawn ar bwysigrwydd delio â throseddwyr ifanc yn gyflym. Mae'n bleser gennyf gofnodi yn ystod y flwyddyn llwyddodd Gwent i gwrdd â thargedau'r llywodraeth i ddelio â phob troseddwr ifanc sy'n troseddu'n barhaus o fewn y 71 diwrnod (ein ffigwr terfynol oedd 70 diwrnod). Ar bob mesur a oedd yn ymwneud â throseddwyr ifanc rhagorodd Gwent ar y cyfartaledd cenedlaethol.

Mentrau

Y flwyddyn nesaf gwelwn ddau welliant sylweddol i'r gwasanaeth y gallwn ei gynnig i ddioddefwyr a thystion. O ddiwedd mis Ebrill eleni byddwn yn ysgrifennu at ddioddefwyr y rhoddwyd terfyn ar eu hachosion neu i ddifrifoldeb eu hachos leihau, i esbonio pam rydym wedi cymryd y camau hyn. Mewn achosion priodol byddwn yn cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb â dioddefwyr i esbonio ein penderfyniad. Gobeithio y bydd hwn yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd yn sylweddol o'n rôl fel gwasanaeth erlyn. Efallai fod rhesymau cyfreithiol cadarn dros ein gorfodi i roi terfyn ar y cyhuddiad neu ei neu leihau, a gallai ond fod o gymorth os rhoddir esboniad o'r rhesymau hyn i ddioddefwyr troseddau.

Yn ail, byddwn yn gweithredu'r darpariaethau hynny o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 a ddaw i rym mewn camau o fis Gorffennaf 2002 ymlaen. Bydd y rhain yn darparu ar gyfer amryw o fesurau arbennig i alluogi tystion diamddiffyn neu'r rheini dan fygythiad roi'r dystiolaeth orau bosibl yn y treial. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda'r heddlu i ddarganfod pa fesurau arbennig a allai fod yn briodol i ddioddefwr neu dyst penodol, ac yna'n gwneud cais i'r llys i ganiatáu defnyddio'r mesurau hyn yn ystod y treial. Gobeithio y bydd hyn yn galluogi tystion diamddiffyn neu'r rhai dan fygythiad roi'r dystiolaeth orau bosibl yn yr achosion troseddol mewn dull na fu'n bosibl cyn hyn.

C-J. Wosley

Prif Erlynydd y Goron

Rydym wedi delio â nifer o achosion a ddenodd brif benawdau'r newyddion cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rheini sy'n dilyn ymysg y rhai amlycaf:

Trevor Masters: Cyhuddwyd Trevor Masters o dreisio, ond cyn i'r rheithgor ddychwelyd gyda'r ddedfryd roedd wedi dianc. Darganfuwyd yn ddiweddarach iddo ddianc dramor. Treuliodd heddlu Gwent sawl mis yn gwneud ymholiadau â'r awdurdodau dramor nes dod o hyd i Trevor Masters yn y pen draw yn Ne Ffrainc. Argymhellodd llys yn Ffrainc y dylid eu estraddodi i'r DG i wynebu ei ddedfryd. Fodd bynnag mae Masters yn ymladd ei estraddodiad drwy'r llysoedd Ffrainc.

Hassan Mohammed: Daeth ymchwiliad cyffuriau enfawr i'w uchafbwynt gydag arestio, erlyn a chollfarnu Hassan Mohammed ac eraill. Dyma gipiad Heroin mwyaf erioed Gwent — un kilo.

Mark Phillips a Carl Ball: Collfarnwyd y ddau o losgi bwriadol gyda'r bwriad o beryglu bywyd. Fe'u dedfrydwyd i gyfanswm o 18 mlynedd yn y carchar — un o'r dedfrydau uchaf erioed a osodwyd ar achos yng Ngwent. Mae'n werth nodi y byddant yn treulio amser hwy yn y carchar na phe baent wedi'u dedfrydu i oes yn y carchar.

Michael Podmore: Collfarnwyd Podmore o gyfres o ymosodiadau creulon ar ei bartner yn ogystal â'i threisio, gan dderbyn dedfryd am oes yn y carchar. Defnyddiom ddull chwyldroadol o gyflwyno tystiolaeth o achos blaenorol yn erbyn Michael Podmore, lle y'i cafwyd yn ddieuog mewn gwirionedd, er mwyn profi'r drosedd.

Mew, Ward a Williams: Ymosododd y tri diffynnydd hyn ar bensiynwr yn ei gar gan ddwyn oddi wrtho. Rhoddwyd yr achos ar lwybr cyflym i Lys y Goron a rhoddwyd cyfanswm o 21 mlynedd yn y carchar i'r tri.

Yn ogystal ag achosion difrifol fel y rhain, erlynwyd troseddau llai difrifol yn eu hanfod, ond a fu'n destun pryder i gymdeithas. Cafodd un dyn ei erlyn wrth beintio ei dŷ yn wyrdd. Nid y waliau yn unig a beintiodd ond rhoddodd gôt o baent hefyd i'w gi anffodus a oedd yn sefyll gerllaw. Roedd yr anifail druan wedi'i orchuddio â phaent ac erlyniwyd y perchennog am achosi dioddef diangen. Mewn achos arall torrodd tad a mab i mewn i isorsaf drydan gan anafu eu hunain wrth geisio symud trawsnewidydd. Daeth yr heddlu o hyd iddynt drwy ofyn i ysbytai lleol a dderbyniwyd rhywun i'r ysbyty â llosgiadau trydanol! Mewn achos arall aeth merch i drafferth wrth dalu ei dirwyon llys gan iddi godi arian drwy dwyll ar gardiau credyd, gan achosi collfarn arall.

Ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron

Y Cod i Erlynwyr y Goron

Mae'r CPS yn erlyn pob achos yn unol â *Chod Erlynwyr y Goron*. Mae'r Cod yn hanfodol bwysig i fusnes craidd y CPS am ei fod yn darparu arweiniad i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w cymhwyso ym mhob penderfyniad erlyn, ac yn gweithredu fel datganiad polisi cyhoeddus, sy'n galluogi pawb i weld a deall sail y penderfyniadau hyn.

Cyhoeddwyd *Cod Erlynwyr y Goron* diwygiedig yn 2000 er mwyn adlewyrchu datblygiadau pwysig mewn deddfwriaeth, gweithdrefnau troseddol a strwythur y CPS ei hun. Fel rhan o'r broses ddiwygio honno, cynhaliwyd rhaglen estynedig o waith ymgynghori â'r cyhoedd a chafwyd sylwadau ar bron bob agwedd ar y Cod. Mae nodweddion newydd y Cod yn cynnwys cyfeiriad at ein safbwynt a'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, eglurhad o'r berthynas rhwng dioddefwyr a lles y cyhoedd a pharagraff ar ieuenctid i adlewyrchu gweithdrefnau newydd ar gyfer cerydd a rhybuddion terfynol.

Adolygiad Auld

Cyhoeddwyd Adolygiad Llysoedd Troseddol yr Arglwydd Ustus Auld ym mis Hydref 2000. Mae'n argymell newidiadau ysgubol i'r llysoedd troseddol gyda llys troseddol unedig mewn tair adran ac un weinyddiaeth i ddisodli strwythurau presennol a gwahanol llys y Goron a'r llys ynadon.

Cynnig arall yw y dylai'r CPS yn hytrach na'r heddlu benderfynu ar gyhuddiadau ym mhob trosedd arferol ar wahân i fân droseddau, neu ble mae angen cyhuddiad i ddal rhywun. Dylai'r newid helpu i wella ansawdd y ffeiliau ac arwain at benderfyniadau cynharach ar bryd i gyhuddo a pha gyhuddiad y dylid ei ddwyn. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cytuno y dylid cynnal cynllun peilot o'r weithdrefn am chwe mis mewn pum Ardal CPS cyn penderfyniad y Llywodraeth ynglŷn ag argymhellion Auld.

Ynglŷn â Gwasanaeth Erlyn y Goron: Y Ffeithiau

Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn pobl yng Nghymru a Lloegr y mae'r heddlu wedi eu cyhuddo o drosedd.

Yn genedlaethol, rydym yn erlyn mwy na 1.4 miliwn o achosion bob blwyddyn a chyfanswm ein gwariant blynyddol bwriadedig ar gyfer 2001-02 oedd £416.3 miliwn. Roedd hwn yn cynnwys £30.4 miliwn o'r gronfa cyfiawnder troseddol wrth gefn, i gyflymu'r broses o ddiwygio'r Gwasanaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn:

- Cynghori'r heddlu ar erlyniadau posibl.
- Adolygu erlyniadau a gychwynnwyd gan yr heddlu i sicrhau bod y diffynyddion cywir yn cael eu herlyn am y cyhuddiadau cywir.
- Paratoi achosion ar gyfer y llys.
- Erlyn achosion yn y llysoedd ynadon a chyfarwyddo cwnsleriaid i erlyn yn Llys y Goron a'r llysoedd uwch. Mae rhai cyfreithwyr y CPS bellach yn gymwys i ymddangos yn Llys y Goron mewn achosion penodol.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth i gyflawni gwelliannau yn y system cyfiawnder troseddol.
- Syr David Calvert-Smith CF, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw pennaeth y CPS; Richard Foster yw'r Prif Weithredwr, a ddechreuodd ar ei swydd ym mis Ionawr 2002.
- Mae'r CPS yn cyflogi tua 7,100 o staff ac yn meddu ar Bolisi Cyfle Cyfartal. Mae rhannau o'r Gwasanaeth wedi cyflawni safon Buddsoddwr mewn Pobl tra bod eraill yn gweithio tuag at gael eu hachredu.
- Sefydlwyd Uned Amrywiaeth ym mis Hydref 1999. Cylch gwaith yr Uned yw gwireddu Datganiad Cydraddoldeb y CPS. Y nod yw sicrhau nad yw'r CPS yn gwahaniaethu naill ai o ran ei arferion cyflogaeth nac o ran ei erlyniadau. Sefydlwyd Grwp Llywio i oruchwylio ymrwymiad y Gwasanaeth i newid yn dilyn adroddiadau gan y bargyfreithwraig Sylvia Denman a hefyd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a amlinellodd wahaniaethu yn erbyn staff lleiafrifoedd ethnig yn y CPS. Yr Arglwydd Goldsmith, sef y Twrnai Cyffredinol, yw'r cadeirydd.
- Mae Grŵp Ymgynghorol Hiliol y Twrnai Cyffredinol yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allanol. Mae'n archwilio ac yn rhoi sylwadau ar gynigion gan y CPS i wella cyfle cyfartal mewn ymateb i argymhellion Denman ac adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Ceir ymrwymiad o frig y CPS i sicrhau gwasanaeth teg ac sydd â'r ymagweddau cywir tuag at amrywiaeth.
- Mae'r CPS yn parhau i ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth a chyfryngau electronig newydd yn barhaus. Mae ganddo wasanaeth mewnrwyd gyda gwefan fewnol, CPS Ar-lein. Mae CPS Ar-lein yn rhoi gwell mynediad i'r staff i wybodaeth, gwell cysylltiadau mewnol ac yn galluogi'r CPS i reoli ei wybodaeth yn well.
- Mae gwefan y CPS i'w gweld yn *http://www.cps.gov.uk* ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n darparu cryn dipyn o wybodaeth am ein busnes, ein staff a'n strwythurau.

- Mae'r CPS a'i bartneriaid cyfiawnder troseddol, yn cydweithio i helpu gwireddu addewid y Llywodraeth i haneru'r amser y mae'n ei gymryd i ddelio â throseddwyr ifanc sy'n troseddu'n rheolaidd mewn llysoedd ieuenctid ac yn Llys y Goron.

- Mae'r CPS yn datblygu mentrau i gyflymu'r broses cyfiawnder a argymhellwyd gan Martin Narey yn ei Adolygiad o Oedi yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr achos penodedig — staff y CPS sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig, nad ydynt yn gyfreithwyr, sy'n adolygu ac yn cyflwyno amrywiaeth cyfyngedig o achosion sy'n gysylltiedig â phledion euog syml yn llysoedd yr ynadon.

- Mae ardaloedd y CPS yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu i sefydlu unedau system cyfiawnder troseddol wedi'u cysylltu a'u lleoli ar y cyd i leihau unrhyw ddyblygu gwaith ac oedi wrth ddwyn yr achosion i'r llys. Maent hefyd yn sefydlu Unedau Treialon (TUs) i ddelio â gwaith paratoi a chyflwyno achosion Llys y Goron mwy difrifol. Lleolir y rhan fwyaf o'r TUs yn adeiladau'r CPS, ond cynllunnir rhai ar gyfer canolfannau Llys y Goron.

- Mae gan y CPS 42 o Ardaloedd sy'n cyfateb â'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr (mae Ardal Llundain yn cynnwys Heddlu Dinas Llundain a Heddlu'r Metropolitan). Mae gan bob ardal Brif Erlynydd y Goron (CCP) sy'n gyfrifol am erlyniadau. Yn Llundain, cefnogir y CCP gan Brif Erlynwyr Cynorthwyol y Goron. Rheolwyr Busnes Ardaloedd sy'n gyfrifol am redeg yr Ardaloedd yn effeithlon.

- Gweledigaeth a Strategaeth y CPS yw "bod yn awdurdod erlyn parchus, sy'n darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r gymdeithas. Rydym am fod yn sefydliad proffesiynol sy'n gwerthfawrogi ei bobl, yn perfformio yn ôl safon uchel, yn ennyn hyder ymysg y cyhoedd, ac yn gweithio mewn partneriaeth".

Ein safle yn y system cyfiawnder troseddol

- Swyddogion y Gyfraith: Mae'r Cyfreithiwr Cyffredinol yn cynorthwyo'r Twrnai Cyffredinol. Gan y Twrnai Cyffredinol y mae'r cyfrifoldeb terfynol dros weithredu'r gyfraith droseddol ac mae'n uwch arolygu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

- Yr heddlu: Mae heddluoedd yn ymchwilio i droseddau ac yn arestio pobl yr amheuir eu bod wedi troseddu neu'n eu cadw yn y ddalfa. Unwaith y cedwir person o dan amheuaeth maent yn penderfynu p'un a ddylid eu rhybuddio, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach, gweithredu cosb benodedig — mewn achosion o droseddau gyrru — neu eu cyhuddo ac anfon y papurau at yr awdurdodau erlyn, sef y CPS yn bennaf.

- Adran yr Arglwydd Ganghellor: Yr Arglwydd Ganghellor yw pennaeth y farnwriaeth ac mae'n gyfrifol am weinyddu system y llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys llysoedd ynadon.

- Y Gwasanaeth Llys: Mae hwn yn gyfrifol am yr Uchel Lys a gweinyddiaeth Llys y Goron a'r Llysoedd Sirol yng Nghymru a Lloegr.

- Y Swyddfa Gartref: Mae'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyfraith a threfn.

- Y Gwasanaeth Carcharau: Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gadw pobl sydd ar remand yn aros treial a'r rhai a ddedfrydwyd i garchar gan y llysoedd.

- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: Mae'r Gwasanaeth yn darparu cyngor a gwybodaeth i'r llysoedd am droseddwyr i helpu penderfyniadau dedfrydu ac yn gweithredu gorchmynion cymunedol a wneir gan y llysoedd.

- Ceir awdurdodau erlyn eraill. Maent yn cynnwys: yr Adran Diwydiant a Masnach; y Swyddfa Twyll Difrifol; Tollau Tramor a Chartref EM; Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; yr Adran Nawdd Cymdeithasol; Cyllid y Wlad; yr Adran Bwyd a Materion Gwledig; y Bwrdd Ymyrraeth; Banc Lloegr; y Fyddin; awdurdodau erlyn yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Frenhinol; yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau ac Awdurdod Rheoleiddio Pensiynau Galwedigaethol.

Taflenni a chyhoeddiadau

Mae'r CPS yn cyhoeddi amrywiaeth o daflenni a chyhoeddiadau am ei waith sydd ar gael am ddim i'r cyhoedd.

Mae'r taflenni sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys: disgrifiad o waith y CPS (Cyflwyniad); y bobl sy'n gweithio i'r gwasanaeth (y Bobl); gwybodaeth am yrfaoedd gyda'r CPS (Gyrfaoedd); Cod Erlynwyr y Goron (y Cod) — a fersiwn wedi'i thalfyrru o'r Cod (Erlyniadau); polisi'r CPS ar ddelio â Thrais yn y Cartref a chyngor i dystion diamddiffyn sy'n bresennol yn y llys (Tystion); a thaflen ar sut i wneud cwyn (Cwynion). Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau ar gael mewn fformatau eraill ac mewn ieithoedd eraill.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX; ffôn: 020 7796 8442.

Delio â chwynion

Nodir ein gweithdrefnau cwyno cynhwysfawr mewn taflen sydd ar gael o swyddfeydd Ardal ac ar ein gwefan: *http://www.cps.gov.uk*

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r ffordd yr ydym wedi ymdrin ag achos dylech ysgrifennu at swyddfa'r CPS a ddeliodd â'ch cais yn wreiddiol. Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl megis enw'r diffynnydd, y llys lle y gwrandawyd yr achos, a dyddiadau unrhyw wrandawiadau a rhifau cyfeirio sydd gennych.

Os ydych yn anfodlon ar yr atebion a dderbyniwch dylech gysylltu â Phrif Erlynydd y Goron Ardal y CPS. Bydd yn ymchwilio i'r gŵyn.

Os ydych dal yn anfodlon gallwch ysgrifennu at y **Customer Service Unit Manager, 50 Ludgate Hill, London, EC4M 7EX.**

Cyfeirir cwynion na ellir eu datrys yn lleol trwy'r Uned hon i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'r Prif Weithredwr.

Perfformiad yn y Llysoedd Ynadon

Siart 1 Baich achosion (derbyniadau a therfyniadau)

Mae pob erlyniad yn dechrau cychwyn yn y llysoedd ynadon. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau sy'n amrywio o fân droseddau gyrru i ymosodiadau a dwyn. Fel arfer aiff yr achosion mwy difrifol ymlaen i Lys y Goron.

Mae nifer yr achosion a dderbyniwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi cynyddu rhywfaint o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i berfformiad Heddlu Gwent sydd bellach â'r gyfradd canfod troseddau uchaf ond un yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn gweithiodd CPS Gwent i gyflawni cyfradd terfynu achosion o dros 97%. Mae hyn yn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn brydlon. Mae'r CPS yn chwarae rhan fawr yn y broses o leihau'r oedi o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ar y cyfan. Mae'n bleser gennym nodi'r ffaith i Gwent gyflawni targed y Llywodraeth i leihau'r amser rhwng arestio troseddwyr ifanc sy'n troseddu'n gyson a'u dedfrydu.

Siart 2 Categorïau Achosion

Dengys **Siart 1** nifer y diffynyddion y derbyniodd yr Ardal eu hachosion gan yr heddlu a nifer y diffynyddion y terfynwyd eu hachosion rhwng Ebrill 1 2001 - Mawrth 31 2002, ac yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein baich achosion yn dibynnu ar nifer yr achosion y mae'r heddlu yn eu hanfon atom. Mae sawl ffactor yn effeithio ar hyn, megis nifer y bobl a gaiff eu harestio a nifer y bobl a gaiff rybudd gan yr heddlu.

Siart 3 Canlyniadau Achosion

Dengys **Siart 2** y gwahanol fathau o waith yr ymdriniodd yr Ardal â hwy rhwng Ebrill 1 2001 - Mawrth 31 2002 a'r flwyddyn flaenorol, sef:
Ynadol — achosion y gellir ond eu cynnal yn y llys ynadon.
Ditiadwy/Naill Ffordd — Mae'n rhaid cynnal achos Ditiadwy yn unig (fel lladrad) yn Llys y Goron, ond gall achos naill ffordd (fel dwyn) gael ei gynnal yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron.
Cyngor — achosion lle y mae'r heddlu yn gofyn am ein cyngor ynglŷn â phryd y dylid cychwyn dwyn achos.
Achosion Eraill — materion nad ydynt yn droseddol, megis fforffediadau o dan Ddeddfau Cyhoeddiadau Anweddus.

Dengys Siart 3 benderfyniadau'r achosion hynny a wrandawyd yn y llys ynadon, heb gynnwys y rhai y rhoddwyd terfyn arnynt neu a draddodwyd i Lys y Goron.

Perfformiad yn Llys y Goron

Siart 4 Baich achosion (derbyniadau a therfyniadau)

Dim ond yn Llys y Goron y gellir cynnal rhai achosion. Mae achosion eraill yn mynd i Lys y Goron am fod y diffynnydd yn dewis cael yr achos yno neu am fod yr ynadon yn penderfynu eu bod yn ddigon difrifol fel bod angen treial yn Llys y Goron. Os bydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog caiff yr achos ei gynnal gerbron barnwr a rheithgor.

Mae nifer yr achosion a draddodwyd i Lys y Goron hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ers y cyfnod blaenorol. Gallwn gofnodi, fodd bynnag, y daeth dros 84% o'r achosion hyn i ben yn ystod y flwyddyn.

Mae nifer cynyddol o achosion a draddodir i Lys y Goron yn achosion mor ddifrifol fel mai dim ond ar dditiad yn y Llys hwnnw y gellir eu profi. Mae'r rhain fel arfer yn achosion sensitif a chymhleth iawn, ac mae angen cynnal dadansoddiadau manwl a pharatoadau trylwyr i sicrhau erlyniadau teg ac effeithlon bob amser. O ganlyniad i'r ymdrechion a wneir gan yr holl staff mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill y CJS cyflawnodd CPS Gwent gyfradd collfarnu uchel gan ddod ag achosion i ben heb unrhyw oedi diangen.

Siart 5 Categorïau Achosion

Dengys **Siart 4** nifer y diffynyddion a ddaeth gerbron Llys y Goron a'r nifer yr ymdriniodd yr Ardal â'u hachosion yn Llys y Goron rhwng Ebrill 1 2001-Mawrth 31 2002, ac yn y flwyddyn flaenorol.

Dengys **Siart 5** y categorïau o achosion yn Llys y Goron, sef:
Traddodwyd i dreial — Achosion ditiadwy yn unig a rhai achosion naill ffordd a anfonir ar gyfer treial yn Llys y Goron o'r llysoedd ynadon. Ers mis Ionawr 2001, anfonir troseddau ditiadwy yn unig i Lys y Goron o dan adran 51, Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 sy'n golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na chynhelir achosion traddodi.
Apeliadau — Gall y diffynyddion apelio i Lys y Goron yn erbyn collfarn a/neu ddedfryd gan lysoedd ynadon.
Traddodwyd i ddedfryd — Gellir traddodi rhai diffynyddion a roddwyd ar brawf ac a gollfarnwyd yn y llys ynadon i'w dedfrydu i Lys y Goron am fod yr ynadon yn penderfynu bod angen cosb lymach nad oes ganddynt hwy y pŵer i'w phennu.

Siart 6 Canlyniadau Achosion

CPS Gwent

Christopher Woolley, Prif Erlynydd y Goron
Chartist Tower, Upper Dock Street, Newport, Gwent NP20 1DW
Rhif ffôn: 01633 261100

Helen Phillips, Rheolwr Busnes yr Ardal
Chartist Tower, Upper Dock Street, Newport, Gwent NP20 1DW
Rhif ffôn: 01633 261100



Cynhyrchwyd gan y Communications Branch
CPS Headquarters, 50 Ludgate Hill
London EC4M 7EX
020 7796 8442

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton Ltd
01204 532121